Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd am dros ganrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 029 2084 3336
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

19 Tachwedd 2023
Teyrnas III

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Wyn Mears

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
Darllenwyr: Rhys Davies / Siwan Seaman
Emynau: 344 (Rhosymedre); 150 (All Souls); 366 (Deep Harmony); 83 (Tyddewi)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 89:19-37
Darlleniadau: I Brenhinoedd 1:15-40; Datguddiad 1:4-18
Darllenwyr: Delyth Davies / Siân Eleri Thomas
Emynau: 442 (Praise my Soul); 371 (Hesperus 149); 234 (Eventide)

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, Falmai Griffiths, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Ann Mears, Gwen Thomas, Ann Watkins, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2023
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 22 Tachwedd 2023
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 26 Tachwedd 2023
Y Sul o flaen Adfent
Crist y Brenin
10.30am Y Foreol Weddi a Phregeth
6.00pm Y Cymun Bendigaid

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Plwyfol Eglwysig nos Lun 20 Tachwedd am 7.00pm.

STONDIN CYNNYRCH CARTREF

Byddwn yn cynnal Stondin Cynnyrch Cartref ar ôl y gwasanaeth 10.30 dydd Sul 3 Rhagfyr. Os hoffech gyfrannu bwydydd neu ddanteithion nadoligaidd i'r stondin mynnwch air â Dilys Jones, os gwelwch yn dda. Bydd unrhyw beth a fydd ar ôl yn cael ei werthu ar ôl y gwasanaeth hwyrol.

CINIO NADOLIG

Yr ydym wedi trefnu ein cinio Nadolig ar gyfer Dydd Sul 10 Rhagfyr yng Nghlwb Golff Cyncoed, Sherborne Ave, Cyncoed CF23 6SJ. Pris dau gwrs yw £20 a'r pris am tri chwrs yw £25. Plant yn £9 am ddau gwrs. Mae'r ffurflen archebu ar gyfer y cinio yng nghefn yr eglwys. Bydd angen dychwelyd y ffurflen gyda'ch taliad erbyn dydd Sul 3 Rhagfyr.

LANSIAD LLYFR CODI'R LLEN

Bydd y llyfr *Codi'r Llen: Merched yr Hen Destament a'u dylanwadau* gan Gyhoeddiadau'r Gair yn cael ei lansio yng nghapel y Tabernacl, yr Ais nos Wener 24 Tachwedd am 7.00pm. Croeso cynnes. Dyma addasiad Cymraeg gan Ruth Davies ac eraill o lyfr a gyhoeddwyd gan Clare Hayns.

GWASANAETH ADFENT

Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth o gerddoriaeth a darlleniadau ar gyfer yr Adfent nos Sul 3 Rhagfyr am 6.00pm. Mae'n anodd credu bod yr Adfent mor agos!

BORE COFFI A CHLONC

Diolch i bawb a ddaeth i'r bore Coffi a Chlonc ddoe. Roedd yn dda gweld cynifer yn mwynhau y sgwrsio. Ni fydd bore coffi gennym ym mis Rhagfyr. Cynhelir ein bore Coffi a Chlonc nesaf ar y trydydd Sadwrn ym mis Ionawr.

YMWELIAD Â CHROCHENDY NANTGARW

Byddwn yn ymweld â Chrochendy Nantgarw dydd Mawrth 5 Rhagfyr. Cost yr ymweliad gan gynnwys bwyd fydd £19.50. **Mae 5 lle** ar ôl. Felly os hoffech chi ddod a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys neu os hoffech ragor o wybodaeth mynnwch air â Shân Morgan. Bydd rhaglen yr ymweliad yn ymddangos yn y daflen yr wythnos nesaf.

SYNOD SANCTAIDD

Cynhelir cyfarfod o'r Esgobion Cadeiriol mewn Synod Sanctaidd i gadarnhau ethol yr Hybarch Dorrien Davies yn Esgob Tyddewi yn EDS prynhawn Mercher 29 Tachwedd am 4.45pm. Os ydy'r tywydd yn wlyb, bydd y parcio ar lain yr eglwys yn hynod o gyfyngedig. Mae'n rhaid inni gadw lle i rai o'r esgobion. Felly, os ydych yn bwriadu dod i'r gwasanaeth gofynnaf yn garedig i chi rannu gwasanaeth, i rannu ceir neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

AGOR YR EGLWYS

Ar ddyletswydd dydd Mercher 22 Tachwedd fydd: Delyth Davies a Marian Fairclough

GWEDDÏAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Eglwys Talaith Myanmar (Burma)
- Ardal Gweinidogaeth y Llan, Bor Noddfa Newydd, y Parchedig Andrew Meredith (Arweinydd), Moira Randall (Arweinydd Lleyg)

GWYLIAU A DARLLENIADAU

Dydd Llun 20 Tachwedd:

I Macabeaid 1:1-15, 54-57, 62-64; Salm 79; Luc 18:35-43

Gweddïwn: Esgobaeth Gogledd Orllewin Awstralia - Eglwys Awstralia

Cilybebyll – Ardal Gweinidogaeth Bro Noddfa Newydd), y Parchedig Jeff Thomas

Dydd Mawrth 21 Tachwedd: Peulin (5ed ganrif), Abad

II Macabeaid 6:18-31; Salm 3; Luc 19:1-10

Gweddïwn dros: Esgobaeth Aweil - Talaith De Swdan

Llangatwg a Thonna, y Parchedig Andrew Meredith (Arweinydd)

Dydd Mercher 22 Tachwedd: Cecilia (230), Merthyr

II Macabeaid 7:1, 20-31, 39-42; Salm 17; Luc 19:11-28

Gweddïwn dros: Esgobaeth Awerial – Talaith Eglwys Esgobol De Swdan

Caplaniaid Prif ysgolion yn yr Esgobaeth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Prifysgol Caerdydd, y Parchedig Joe Smith (Caplan)

Dydd Iau 23 Tachwedd: Clement (c100), Esgob a Merthyr

I Macabeaid 2:15-29; Salm 129; Luc 19:41-44

Gweddïwn dros: Esgobaeth Awgu / Aninir – Eglwys Nigeria (y Cymundeb Anglicanaidd)

Dyffryn (Ardal Gweinidogaeth Bro Noddfa Newydd), y Parchedig Stephen Bodycombe (Ficer)

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch, Mrs Kath Phillips, y pennaeth, y staff a'r disgyblion

Dydd Gwener 24 Tachwedd:

I Macabeaid 4:36, 37, 52-59; Salm 113; Luc 19:45-48

Gweddïwn dros: Esgobaeth Awka – Eglwys Nigeria

Archddiaconiaeth Margam, yr Hybarch Michael Komor

Cwm Nedd (Ardal Gweinidogaeth Bro Noddfa Newydd) y Parchedig Jayne Shaw (Ficer)

Dydd Sadwrn 25 Tachwedd: John Donne (1631), Offeiriad a Bardd

I Macabeaid 6:1-13; Salm 124; Luc 20:27-40

Gweddïwn dros: Esgobaeth Awori – Eglwys Nigeria

Ardal Gweinidogaeth Port Talbot, y Parchedig Michael Gable (Arweinydd), Trudy Knowles (Cadeirydd Lleyg)